Nodiadau ar gynnig
i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2010

Mae'r cyfarfod hwn yn pwyso ar Lywodraeth Ei Mawrhydi i gyflwyno labeli clir a gorfodol ynglŷn â gwlad y tarddiad ar yr holl gynhyrchion cig, dofednod a physgod a werthir yn y wlad hon.

Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni'n trafod mater labeli bwyd, yn dilyn cefnogaeth lethol oddi wrth yr aelodau a bleidleisiodd am y rhestr fer.

Defnyddiwch y nodiadau hyn i ddylanwadu ar eich ymchwil er mwyn sicrhau y bydd pob SyM yn bwrw pleidlais wybodus yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Teitl y Cynnig: Labeli clir gorfodol ar fwyd gydag enw gwir wlad y tarddiad

Geiriad y Cynnig: Mae'r cyfarfod hwn yn pwyso ar Lywodraeth Ei Mawrhydi i gyflwyno labeli clir a gorfodol ynglŷn â gwlad y tarddiad ar yr holl gynhyrchion cig, dofednod a physgod a werthir yn y wlad hon.

Safbwynt y cynigydd: Mae gwybodaeth aneglur a chamarweiniol ar becynnau'n gwrthod y cyfle i ddefnyddwyr wneud dewis gwybodus wrth brynu nwyddau.

Braslun o'r mater dan sylw:
O dan y ddeddfwriaeth bresennol nid oes yn rhaid i gynhyrchion bwyd (gydag ychydig iawn o eithriadau gan gynnwys cig eidion, cig llo a physgod ffres) gario label gwlad y tarddiad oni fyddai peidio â gwneud hynny'n camarwain cwsmeriaid.

Hefyd, o dan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, "gwlad y tarddiad" yw'r wlad lle gwnaethpwyd y "newid sylweddol" olaf i'r cynnyrch. Mae hyn yn golygu y gellir labelu pastai porc yn gynnyrch Prydain os cafodd ei wneud yn bastai ym Mhrydain, hyd yn oed os yw'r porc sydd ynddo'n dod o foch a anwyd, a fagwyd ac a laddwyd yn rhywle arall.

Mae manwerthwyr hefyd yn defnyddio brandio Prydeinig i greu'r argraff bod cynnyrch yn "Brydeinig" ac felly'n cefnogi ffermwyr Prydain. Caniateir hyn o dan y ddeddfwriaeth bresennol hyd yn oed os yw'n cynnwys cig wedi'i fewnforio. Mae enghreifftiau'n cynnwys prydau parod sy'n cael eu marchnata fel "Great British Classics" ond sydd â chig o wlad neu wledydd tramor ynddynt.

Mae yna gymhelliad i fanwerthwyr y Deyrnas Unedig esgus mai cig o Brydain yw cig tramor. Mae cig o Brydain yn tueddu i fod yn ddrutach oherwydd safonau uwch y Deyrnas Unedig ym maes lles anifeiliaid. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ffermwyr Prydain gystadlu ar bris yn unig ac mae'n rhaid iddynt hyrwyddo cymhellion eraill, megis ansawdd, i ddefnyddwyr brynu cynhyrchion o Brydain. Mae hyn yn galw am labeli cywir.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cynhyrchu canllawiau i fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr sy'n dweud na ddylai cig gael ei labelu fel cig o Brydain ond os cafodd yr anifeiliaid eu geni, eu magu a'u lladd yn y Deyrnas Unedig. Onid yw hyn yn wir, dylai'r labeli ddweud "gwnaethpwyd ym Mhrydain gyda chig o wlad x". Nid oes yn rhaid i fanwerthwyr ufuddhau i'r canllawiau, ond mae rhai archfarchnadoedd eisoes wedi cymryd camau i osgoi labeli camarweiniol.

Ym mis Mawrth 2009 cefnogodd pwyllgor o ASEau adroddiad oedd yn galw am labeli cliriach ynglŷn â gwlad y tarddiad ar draws Ewrop a disgwylir i hyn fod yn sail i gyfraith newydd gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae Brwsel bellach yn trafod cynigion i gyflawni hyn, gan gynnwys cau'r bwlch yn y gyfraith sy'n diffinio "gwlad y tarddiad" fel y wlad lle gwnaethpwyd y newid sylweddol olaf. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion cig wedi'u prosesu gael eu labelu "gwnaethpwyd ym Mhrydain gyda chynhyrchion wedi'u mewnforio" os nad oedd y cynhwysion cig o Brydain. Ni chytunwyd eto ar y cynigion terfynol ond ni ddisgwylir iddynt wneud labeli gwlad y tarddiad yn ofyniad gorfodol ar bob cynnyrch.

Yn y Deyrnas Unedig, mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig hefyd wedi addo gwella labeli cynhyrchion. Ym mis Mawrth 2010 cyhoeddodd yr ysgrifennydd gwladol fod y prif archfarchnadoedd a rhai cadwynau bwytai wedi ymrwymo i God Ymddygiad gwirfoddol ar labeli gwlad y tarddiad ar gynhyrchion porc. Bydd hyn yn ei gwneud yn glir a yw'r cig mewn cynhyrchion wedi'u prosesu a

brechdanau'n tarddu o wlad neu wledydd tramor trwy fabwysiadu'r fformiwla "gwnaethpwyd yn y Deyrnas Unedig gyda chig o wlad x". Mae archfarchnadoedd hefyd wedi cytuno i beidio â defnyddio brandio Prydeinig ar gynhyrchion os nad ydynt wedi'u gwneud â phorc o Brydain.

Gorfodol neu wirfoddol

Mae'r holl gynnydd hyd yma wedi canolbwyntio ar symudiadau gwirfoddol gan fanwerthwyr. Byddai'r cynnig yn gwneud labeli gwlad y tarddiad yn ofyniad cyfreithiol i bob cynnyrch.

Mae cynhyrchwyr cynhyrchion wedi'u prosesu'n gwrthwynebu labeli gorfodol gan eu bod yn dadlau nad ydynt yn realistig oherwydd eu cadwynau cyflenwi cymhleth. Yn aml mae bwydydd wedi'u prosesu'n cael eu gwneud gyda chig sy'n dod o nifer o wledydd, ac yn aml yn newid ar y funud olaf i ganiatáu ar gyfer pryderon ynglŷn ag iechyd, y tywydd, newidiadau i'r galw ac yn y blaen. Ar y llaw arall mae deunydd pacio'n aml yn cael ei argraffu fisoedd ymlaen llaw ac ni all adlewyrchu newidiadau cyflym a mynych.

Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi gwrthwynebu labeli gorfodol hyd yma, gan ddadlau y byddai'n anghyfreithlon o dan gyfraith bresennol yr Undeb Ewropeaidd ac yn ormodol. Mae'r Ceidwadwyr yn anghytuno â hyn, fodd bynnag, ac yn honni ei bod yn bosibl yn gyfreithiol. Mae'r Ceidwadwyr wedi dweud, os bydd cyfraith arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd yn cadw labeli gwirfoddol, y byddant yn deddfu i wneud labeli gwlad y tarddiad yn ofyniad cyfreithiol yn y Deyrnas Unedig.

Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) yn galw am labeli gorfodol ac yn lobïo ASEau ym Mrwsel i gynnwys hyn yn y ddeddfwriaeth derfynol. Mae'n dadlau y bydd hyn yn rhoi amddiffyniad gwell i ffermwyr Prydain. Mae Which? hefyd yn dadlau y byddai ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i ddangos gwlad y tarddiad yn darparu gwybodaeth well i ddefnyddwyr.

Dadleuon dros y cynnig:

- Mae yna alw gan ddefnyddwyr am labeli cliriach. Dywedodd 87 y cant o bobl wrth arolwg a gomisiynwyd gan y blaid Geidwadol y dylai'r llywodraeth sicrhau bod gwlad y tarddiad yn cael ei dangos yn glir ar fwyd.
- Er gwaethaf hyn, mae'r diwydiant yn amau a oes ots gan ddefnyddwyr mewn gwirionedd am labeli gwlad y tarddiad. Byddai mabwysiadu'r cynnig hwn yn dangos ei fod yn fater o bwys i brynwyr.
- Mae enghreifftiau o ddeunydd pacio camarweiniol ar gael yn rhwydd, sy'n awgrymu bod hyn yn broblem wirioneddol i ddefnyddwyr. Gallai ymgyrch ganolbwyntio ar broblemau hawdd eu canfod gyda'r system bresennol.
- Mae diffyg labeli clir a chywir yn rhwystro cwsmeriaid rhag gwneud dewisiadau gwybodus. Mae yna lawer o resymau pam y mae unigolion eisiau gwybod beth yw gwlad tarddiad eu cig, pysgod neu ddofednod, gan gynnwys safonau lles anifeiliaid, hylendid a'r effaith y gall bwydydd o wledydd penodol ei chael ar yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd (er enghraifft, cig eidion o'r Amazon).
- Byddai'n adeiladu ar gysylltiadau FfCSyM â ffermwyr Prydain ac yn tynnu sylw at y rhesymau pam y mae pobl yn prynu cynhyrchion o Brydain a'r heriau y mae diwydiant cig Prydain yn eu hwynebu.
- Wrth alw am labeli gorfodol ynglŷn â gwlad y tarddiad mae'r cynnig yn mynd ymhellach na llawer o'r cynigion sydd ar y gweill eisoes ac sy'n canolbwyntio ar welliannau gwirfoddol.

Dadleuon yn erbyn y cynnig:

- Mae Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd yn trafod deddfwriaeth newydd i'r Undeb Ewropeaidd i gyd ar labeli gwlad y tarddiad. Mae hyn yn debyg o fynd i'r afael â llawer o'r problemau allweddol gyda'r system bresennol.
- Mae DEFRA wedi cytuno i god ymddygiad gwirfoddol gyda phrif archfarchnadoedd y Deyrnas Unedig sy'n mynd i'r afael â llawer o'r pryderon yn y cynnig.
- Mae eisoes nifer o ymgyrchoedd amlwg iawn ar y mater, yr ymddengys eu bod yn cael effaith ar y diwydiant.
- Byddai'r cynnig yn gwneud labeli clir ynglŷn â gwlad y tarddiad yn ofyniad cyfreithiol. Mae yna bryderon gan y diwydiant bod hyn yn rhy gaeth ac y dylid rhoi prawf ar y cynlluniau gwirfoddol yn gyntaf.
- Mae'n bosibl y bydd cyflwyno gofynion gorfodol o ran labeli bwyd ar fwydydd sy'n cael eu gwerthu yn y Deyrnas Unedig yn creu costau sylweddol uwch i gynhyrchwyr a manwerthwyr sydd eisiau gwerthu cynnyrch ar farchnad y Deyrnas Unedig, lle nad yw hyn yn ofyniad i wledydd eraill.

Ymgyrchoedd presennol ar y mater:

- 'Why Farming Matters' – Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn ymgyrchu dros ddiwydiant amaethyddol cynaliadwy a llewyrchus ym Mhrydain. Yn rhan o'r ymgyrch mae'n galw am labeli gorfodol ynglŷn â gwlad y tarddiad i helpu ffermwyr Prydain i hyrwyddo eu cynhyrchion.
- 'Jamie Saves Our Bacon' – Mae'r cogydd enwog Jamie Oliver wedi bod yn ymgyrchu i gael mwy o ymwybyddiaeth am ddiwydiant moch Prydain, gan gynnwys gwerth safonau uwch y Deyrnas Unedig o ran lles anifeiliaid. Un rhan allweddol o hyn yw galw am label clir a gonest ynglŷn â gwlad y tarddiad er mwyn hyrwyddo porc o Brydain.
- 'Honest Food' – a lansiwyd gan y Ceidwadwyr ac sy'n cael ei chefnogi gan sefydliadau megis Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Bwyd a Ffermio'r Menywod, Compassion in World Farming, Cyngor Dofednod Prydain, Cymdeithas Moch Prydain a'r RSPCA, ac enwogion o fyd bwyd gan gynnwys Hugh Fearnley-Whittingstall, Anthony Worrall Thompson, Rick Stein a Clarissa Dickson Wright.

Grwpiau i gysylltu â hwy i gael mwy o wybodaeth:

- **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)**
  Ffôn: 08459 33 55 77
  Trwy e-bost: helpline@defra.gsi.gov.uk
  www.defra.gov.uk

- **Yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Tîm Labeli**
  Ffôn: 020 7276 8147
  E-bost: labelling@foodstandards.gsi.gov.uk
  www.food.gov.uk

- **Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr**
  Ffôn: 024 7685 8500
  www.nfuonline.com